CANOLFAN A MENTOR GYMRAEG MERTHYR TUDFUL

England & Wales · Charity number 1124473

Details

Other names	MENTER MERTHER
Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	06249902
Registered	2008-06-11
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	Canolfan Soar Pontmorlais Merthyr Tydfil Mid Glamorgan CF47 8UB
Phone	01685722176
Email	lis@merthyrtudful.org
Website	www.theatrsoar.cymru

Activities

Objects: ADVANCING THE EDUCATION AND GENERAL KNOWLEDGE OF THE COMMUNITY BY ESTABLISHING AND MAINTAINING A CENTRE SO AS TO ENCOURAGE THE STUDY AND USE OF THE WELSH LANGUAGE BY THE PROVISION OF LECTURES, DISCUSSION GROUPS AND ACTIVITIES THROUGH THE MEDIUM OF THAT LANGUAGE.YN DATBLYGU ADDYSG A GWYBODAETH GYFFREDINOL Y GYMUNED DRWY SEFYDIU A CHYNNAL CANOLFAN ER MWYN ANNOG ASTUDIAETH A DEFNYDD O R IAITH GYRAEG, GYDA DARPANAETH O DDARLITHOEDD, GRWPIAU TRAFOD A GWEITHGAREDDAU DRWY GYFRWNG YR IAITH HONNO

Activities: Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn darparu cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol i bawb sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Mae digwyddiadau yn cynnwys boreau coffi; darlithoedd; nosweithiau cymdeithasol; clybiau ieuenctid; grwpiau drama;cor; sesiynau celf a chrefft; tripiau amrywiol; gigs Cymraeg; gwyliau a dathliadau Cymraeg a mwy.

Downloaded from opencharities.uk/ew/1124473

Classification

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services, Provides Advocacy/advice/information
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Arts/culture/heritage/science, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment, Recreation, Other Charitable Purposes
- **Who:** Children/young People, Other Charities Or Voluntary Bodies, Other Defined Groups

Geography

- **Area of benefit:** UNDEFINED. IN PRACTICE, WALES
- Merthyr Tydfil

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£475,678	£486,977	-	-
2024-03-31	£430,350	£489,032	-	-
2023-03-31	£300,496	£426,649	-	-
2022-03-31	£455,083	£461,975	-	-
2021-03-31	£443,470	£377,924	-	-

Trustees

Name	Role	Appointed
Naomi Hughes	Chair	2023-03-08
Anne-Marie Carpenter		2023-03-08
Emma Anne Hickey		2026-01-15
Gafin Ericson Morgan		2023-03-08
Helen Louise Davies		2023-01-19
Jacob Bridges		2026-01-15
Lowri Farnham		2026-01-15
Margaret Llinos Howells		
Sarah Ward		2023-01-19

Downloaded from opencharities.uk/ew/1124473

CANOLFAN A MENTOR GYMRAEG MERTHYR TUDFUL

England & Wales - Charity number 1124473

Accounts

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

(Cwmni cyfyngedig drwy warant)

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol
ar gyfer y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1
Gwybodaeth yr Elusen	8
Datganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr	10
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	11
Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol	13
Mantolen Gyfunol	14
Mantolen yr Elusen	15
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	16

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Mae'r ymddiriedolwyr, sy'n gyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith cwmni, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ynghyd â datganiadau ariannol y cwmni elusennol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Nodau ac amcanion
I ddatblygu addysg a gwybodaeth gyffredinol o fewn y gymuned, drwy sefydlu a chynnal canolfan er mwyn annog astudiaeth a defnydd o'r iaith Gymraeg, gyda darpariaeth o ddarlithoedd, grwpiau trafod, a gweithgareddau celfyddydol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Crynodeb Gweithredol
Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn ganolbwynt i ddatblygiad y Gymraeg trwy weithrediad Canolfan Soar ac integreiddiad yr iaith Gymraeg i'r gymuned leol.

Amcan strategol Menter Iaith Merthyr Tudful yw cefnogi cyflawniad strategaeth Cymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr; trwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gwneir hyn drwy gyflawni targedau a osodwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Rhwydwaith Mentrau Iaith ledled Cymru.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Creu Cymru yr ydym oll am fyw ynddi heddiw, ac yn y dyfodol sy'n mynd law yn llaw â Strategaeth y Gymraeg. Yn ganolog i ethos ein sefydliad yw bod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn ffynnu ym Merthyr Tudful.

Cyflwyniad Cryno
Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithredu fel rhan o rwydwaith o bartneriaid Cymraeg sydd yn gwasanaethu'r ardal gan gynnwys Dysgu Cymraeg Morgannwg (CiO), Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin a Chymraeg i Blant. Mae'r Fenter yn aml yn cyfeirio unigolion a sefydliadau at y partneriaid eraill a chaiff ei hystyried fel y 'glud' sydd yn gwneud i'r Rhwydwaith weithredu'n llwyddiannus yn ein cymuned. Mae sefydlu Canolfan Soar fel cartref i bartneriaid Cymraeg yng nghanol tref Merthyr wedi bod yn allweddol i gydweithrediad ein sefydliadau wrth gyflawni Strategaethau Llywodraeth Cymru ers 2011.

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol, celfyddydol a llesiant i gyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau newydd. Ymdrechwn at ymateb i'n cymuned leol a myfyrio arni.

Cyd-destun
Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw un o'r lleiaf yng Nghymru. Hen ardal ddiwydiannol yw hi ac er mor gryf yw'r rhwydweithiau cymdogol a'r ymdeimlad o berthyn, mae ei phoblogaeth yn dal i ddioddef sgil effeithiau diflaniad y diwydiannau mawr traddodiadol. Mae lefelau diweithdra yma gyda'r uchaf yng Nghymru a dyma'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl ffigurau'r Llywodraeth. Felly mae heriau sylfaenol i'r awdurdod lleol o ran iechyd, lles, cyflogaeth a sgiliau pobl yr ardal.

Cafodd Menter Iaith Merthyr Tudful ei sefydlu yn 2003 ar ôl blynyddoedd o weithgaredd gwirfoddol yn lleol. Nod y Fenter Iaith yw ehangu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal drwy feithrin cyfleoedd a gwasanaethau i drigolion y sir ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau lleol.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Budd y cyhoedd
Mae gweithgareddau elusennol y Fenter wedi cyfrannu at dwf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg ym Merthyr, codi hyder a hunan-barch ac ehangu gorwelion trigolion Merthyr.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydsynio â gofynion Adran 4 Deddf Elusennau 2011 o ran talu'r sylw dyledus at ganllawiau buddion cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr.

Bwrdd Llywodraethu
Mae gan Fwrdd Llywodraethu Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful 8 Aelod. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws meysydd arbenigedd dysgu, anghenion dysgu ychwanegol, ymgysylltiad cymunedol, Datblygu cymunedol, marchnata, llywodraethu, Ariannu a Chyllido, rheoli ac arwain.

Gweithgareddau: Cyfnod 1af Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

Perfformiadau'r Flwyddyn

Digwyddiad	Cwmni
Cyfarfod Blynyddol AOC	Addysg Oedolion Cymru
Perthyn i ddihiryn	Sgwrs gyda Dafydd Wigley
The Price of Change	Contemporancient Theatr
Celf a Chrefft yr Urdd	Urdd Gobaith Cymru
Parti Priodas	Theatr Cymru
Ffenest Siop	Theatr Bara Caws
Gweithdy Ysgrifennu Cân	Y Marcellas
Cwmwl Tystion - Empathi	Cwmwl Tystion/Tomos Williams
Datganiad Organ gan Jane Watts	Theatr Soar
Twmpdaith	Twmpdaith/Mentrau Iaith Cymru
Gig Nadolig i Siaradwyr Newydd	Bwca/Dysgu Cymraeg Morgannwg
Wythnos o berfformiadau Nadolig	Ysgol Santes Tudful
Iphegina yn Sblott	Theatr y Sherman
Y Llyn	BANDO!
Gweithdy Y Llyn i ddysgwyr	BANDO!/Theatr Soar
Noson o Gerddoriaeth Byr-fyfyr	Shift/John Butcher/Emil Karlsen/Dominic Lash
Metal Soar	Prosiect Gomisiwn Theatr Soar
Mari George – Sut i Ddofi Corryn	Siop Soar
Gweithdy Clai i Blant	Naomi Hughes
Mari Merthyr	Canolfan a Theatr Soar
Triawd Gwilym Bowen Rhys	Gwilym Bowen Rees/Mentrau Iaith
Sgwrs gyda Heini Gruffydd	Canolfan Soar
Diwrnod Trefithick	Canolfan Soar
Asesiadau Arholiadau TGAU Perfformio	Ysgol Pen y Dre
Ysgol Roc	Canolfan Soar a Cherdd Gymunedol Cymru
Vri a Elin a Carys	Theatr Soar/Y Parlwr
Perfformiadau Asesu	Coleg Merthyr
Gweithdy Peintio	Cwmni Blodau Haul
Cwis a Cyri	Criw Cymraeg Soar
Water Wars	Company of Sirens

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Gweithio mewn partneriaethau

Consortiwm Cymraeg
Cydweithrediad rhwng Theatr Soar, Theatr Nannog, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Neuadd Les Ystradgynlais gychwynnodd ar drothwy'r Pandemig yn 2020 yw'r Consortiwm Cymraeg. Rydym wedi cyflwyno cais i CCC er mwyn cynhyrchu ' Addysgu Rita, sef addasiad Cymraeg newydd o ddrama enwog Willy Russell 'Educating Rita ac i deithio'r ddrama ledled Cymru.

Cwmni Blodau Haul
Mae Cwmni Blodau Haul yn griw o 2 o artistiaid lleol sy'n cynnal sesiynau drama a cherddoriaeth Cymraeg i blant 5-11 oed. Mae'r cwmni wedi esblygu yng Nghanolfan Soar dros yr wyth mlynedd diwethaf . Eleni i ymateb i'r galw mae sesiynau'r cwmni wedi addasu i gynnwys sesiynau celf a chrefft gan diwtoriaid gwadd yn ogystal â drama a cherddoriaeth. Mae'r cwmni hefyd yn awyddus i ddarparu sesiynau offerynnol a chanu mewn meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant ar draws y Sir.

Y Parlwr
Gweithiodd y Fenter gyda'r Parlwr er mwyn cynnal gigiau gwerin yn Theatr Soar ac i ddatblygu ein cynulleidfa ar gyfer cerddoriaeth gwerin gyfoes .
Mae'r cydweithio yn mynd o nerth i nerth ac eleni fe groesawon Mari Mathias, Lo-Fi Jones, Vri ac Elin a Carys. Rydyn yn bwriadu cydweithio i gynhyrchu Gŵyl Werin yn 2027.

Partneriaid Cymraeg
Mudiad Meithrin , Cymraeg i Blant, Urdd Gobaith Cymru, Dysgu Cymraeg Morgannwg, Ysgol Gymraeg Santes Tudful, Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug, Ysgol Rhyd y Waun, RhAG, Cynrychiolaeth Gymraeg Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Consortiwm Addysg Gymraeg, Cymraeg I Bawb, Eisteddfod Genedlaethol, Coleg Merthyr Tudful.

Partneriaeth Cymraeg i Bawb
Sefydlwyd partneriaeth gyda'r nod o hybu Addysg Gymraeg ar draws 10 Sir yn y De Ddwyrain. Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Mentrau Iaith y 10 awdurdod yw'r prosiect peilot yma. Mae partneriaid allweddol fel Mudiad Meithrin a Chymraeg I Blant hefyd yn rhan o'r prosiect. Mae'r Prif Swyddog yn aelod o Fwrdd Llywodraethu Cymraeg i Bawb.

Partneriaid Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Dysgu Oedolion Cymru (ALW), Dysgu Oedolion Cymunedol Merthyr Tudful, Ymddiriedolaeth Hamdden a Diwylliant Merthyr Tudful, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Partneriaeth Ganol y Dref, Fforwm Treftadaeth Merthyr Tudful, MIND Cwm Taf, Cerddoriaeth Gymunedol Cymru, 3G's Development Trust, Cymuned Artis.

Rhwydweithiau Cymunedol, Rhanbarthol a Chenedlaethol

Mentrau Iaith Cymru: Mae'r Fenter Iaith yn rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Cymru, sef y sefydliad sy'n cefnogi'r 22 Menter Iaith ar draws Cymru. Rydym yn elwa o fod yn rhan o brosiectau datblygu'r Gymraeg cenedlaethol â rhanbarthol yn ogystal ag hyfforddiant cyson ar bob agwedd o'n gwaith. Mae'r rhwydwaith hefyd yn dod a ni ynghyd ar draws Cymru er mwyn trafod a bwydo mewn i strategaethau a pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, y Gymuned, yr Economi, Addysg, Tai a llawer mwy.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

RhWYD/Cymunedoli: Mae'r Prif Swyddog yn Aelod o Rhwydwaith RHWYD, wedi ei sefydlu gan bartneriaeth rhwng Cwmni Iaith Cyfyngedig a Rhwydwaith Cymunedoli yng Nghogledd Cymru. Nod Rhwydwaith RHWYD yw galluogi cyfathrebiad rhwng mentrau Cymdeithasol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru.

Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Treftadaeth y DU: Mae'r Prif Swyddog yn aelod o'r Rhwydwaith Cenedlaethol (DU) yma sy'n dod a sefydliadau Treftadaeth ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghyd i rannu arfer da a dysgu wrth ei gilydd.

Rhwydweithiau lleol
Mae gennym berthynas agos gyda rhwydweithiau lles, treftadaeth, cymunedol, economaidd a chelfyddydol lleol. Mae'r Prif Swyddog yn mynychu'r Fforwm Lles sy'n cynnwys aelodau o'r holl sefydliadau cymunedol sy'n ymwneud â gwaith lles yr ardal, e.e. Cyngor Gwirfoddol Gweithredol Merthyr Tudful, Versus Arthritus, Alzheimer's Society, Cwmpas, Small Woods, Gwasanaethau Iechyd y Sir, Merthyr Tudful Institute for the Blind,Sense Active, Age Cymru,Recovery4All, Llamau, CTM MIND, Stroke Association, Bowel Cancer, Age Connects a llawer mwy. Mae'r Prif Swyddog yn cynrychioli'r Gymraeg, y gymuned, treftadaeth a'r celfyddydau ar Bartneriaeth Ganol y Dref sy'n cynnwys busnesau lleol, sefydliadau gwirfoddol, y BID (Business Investment District) ac Adran Economaidd y Cyngor Sir.

Rhwydweithiau Celfyddydol a Diwylliannol lleol, Rhanbarthol a chenedlaethol
Mae'r Fenter yn rhan o Rwydweithiau Beth Nesaf? Cymoedd, Beth Nesaf? a rhwydwaith Creu Cymru sy'n dod â phobl sy'n gweithio yn y maes Theatr a Chelfyddyd ehangach ynghyd. Gydag apwyntiad Rhaglennydd Creadigol profiadol mae cyfleoedd yn ehangu i weithio'n ddyfnach a'n fwy cydweithredol gyda chasgliad eang o gwmnïau a sefydliadau.

Rhai uchafbwyntiau'r rhaglen greadigol eleni oedd -

- **Metal Soar** - Prosiect gomisiwn a chyngerdd wedi ei ariannu gan Loteri Treftadaeth a Thŷ Cerdd. Comisiynwyd y cerddor clasurol David John Roche i ysgrifennu darn newydd ar gyfer band metal a'r organ. Gwahoddwyd hefyd 'Celavi' band nu-metal o'r gogledd a band ifanc o Ferthyr, Echdoriad.
- Cynhelir gweithdy cyfansoddi i bobl ifanc rhwng 14 a 18 gan David John Roche ac aelodau o ensemble offerynnol Uproar wedi ei gefnogi gan Dŷ Cerdd. Roedd hwn yn ddilyniant i brosiect yr organ ac yn helpu tuag at godi ymwybyddiaeth o Soar fel hwb cerddorol o ansawdd uwch.
- **Mari Merthyr** – Digwyddiad cymunedol a chreadigol i ddathlu Hen Galan. Cynhaliwyd cyfres o weithdai canu a chelf cyn y digwyddiad.
- **'Y Llyn'** -Sioe ddwyieithog gan y cwmni **BANDO!** yn cyfuno storio, dawns a cherddoriaeth. Cynhaliwyd gweithdy storio i ddysgwyr yn arwain i fyny at y perfformiad.
- **Company of Sirens - Water Wars gan Ian Rowlands** – sioe ddwyieithog gyda thema pwysig cyfoes Gymreig.
- Ensemble Cerddoriaeth Glasurol Fodern **'Uproar'** – yn cynnwys cyfansoddiadau comisiwn gan 3 cyfansoddwr o Gymru – Richard Baker, Nathan James Deardan a Lynne Plowman

Rydym wedi llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r sefydliad a chodi proffil y theatr ymysg cerddorion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol . Rydym wedi cryfhau enw da Soar am gyflwyno cerddoriaeth newydd uchelgeisiol.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Diweddglo
Mae Canolfan Soar yn ystyried ei hun fel Menter sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd cymunedol Merthyr Tudful. Rydym yn ymgysylltu'n llawn â'r gymuned honno o ddydd i ddydd ond hefyd wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid a phrosiectau amrywiol ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ym mhob agwedd o fywyd yn y gymuned.

Mae Canolfan Soar yn cael ei gweld fel pwerdy adfywio yn yr ardal ac yn gyfleuster sy'n rhoi hwb i amrywiaeth o brosiectau treftadaeth a chelfyddydol yn ogystal â darparu gwasanaethau cyfieithu trwy ein cwmni cyfieithu cymunedol.

Mae gan Ganolfan Soar rôl hollbwysig yn y sgwrs genedlaethol ar faterion yn ymwneud â chymuned, y celfyddydau, treftadaeth ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddyhead hirdymor y Llywodraeth at gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Canolfan Soar yn cydnabod cefnogaeth y gymuned a'r rhai sy'n gwirfoddoli i sicrhau ei llwyddiant ac yn ddiolchgar i staff am eu hymrwymiad i'w gweledigaeth, nodau a'i hamcanion.

I’r Dyfodol
Cryfder ein sefydliad yw ein gallu i ymateb i anghenion ein cymuned. Mae ein lleoliad canolog, strwythur hyblyg, staff ymroddgar a’n gallu i ffurfio partneriaethau lleol a chenedlaethol yn gwneud hyn yn bosib. Gwneir ein gwaith gorau wrth wrando a gweithio law yn llaw gyda’n cymuned. Mae’n bwysig creu’r gofod i ymateb i anghenion a gwireddu breuddwydion ein defnyddwyr.

Canolbwynt datblygiad y sefydliad dros y flwyddyn nesaf bydd ddatblygiad Soar fel Hwb Gymunedol i Bobl Ifanc; datblygu cynlluniau a denu cyllid i adfywio llawr gwaelod y Ganolfan; datblygu ein Siop, Caffi a chwmni masnachol Cyfieithu fel gwasanaethau Cymraeg a ffyrdd o gynyddu incwm i’r dyfodol.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Am y flwyddyn yn diweddu31 Mawrth 2025

Strwythur, llywodraethu a rheolaeth

Natur y ddogfen lywodraethol
Cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yw Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful, a gorfforwyd ar 16 Mai 2007 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 11 Mehefin 2008.

Ar 23 Chwefror 2009, diddymwyd yr elusen anghorfforedig, Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful, a throsglwyddwyd ei hasedau i'r Cwmni Elusennol hwn.

Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasiad, a bennodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol, ac fe'i llywodraethir o dan Erthyglau'r Cwmni.

Recriwtio ac apwyntio ymddiriedolwyr
Cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yw ymddiriedolwyr yr elusen at ddibenion cyfraith elusennau, ac fe'u gelwir yn ymddiriedolwyr o dan Erthyglau Cymdeithasiad y Cwmni.

Bydd busnes yr Elusen yn cael ei reoli gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau.
Bydd traean o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, sef y Cyfarwyddwyr hynny a oedd yn eu swyddi yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn cael eu hethol bob blwyddyn gan yr aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Elusen.

Bydd aelodau sy'n ymddeol yn gymwys i gael eu hailethol heb enwebiad pellach. Os oes rhaid dewis rhwng Cyfarwyddwyr sy'n ymddeol ac sydd wedi gwasanaethu am gyfnod cyfartal, rhaid bwrw coelbren.

Anfonir gwahoddiadau am enwebiadau ar gyfer swydd Cyfarwyddwr at yr holl aelodau ynghyd â rhybudd o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Derbynnir enwebiadau wedi'u cwblhau hyd at saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Mae pob enwebiad angen llofnod y person a enwebwyd a llofnod cynigydd ac eilydd, a rhaid i bob un ohonynt fod yn aelodau o'r Elusen.

Ni fydd nifer y Cyfarwyddwyr yn llai na 3 ac nid yn fwy na 15, oni bai bod yr Elusen yn penderfynu fel arall mewn Cyfarfod Cyffredinol.

Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr p'un a ydynt yn aelod o'r Elusen ai peidio, ar yr amod nad eir dros y nifer uchaf a nodir yn Erthygl 39 ac na wneir mwy na thri chyfetholiad o'r fath rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Bydd pob person a gyfetholir felly yn ymddeol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn eu cyfethol ond byddant yn gymwys i gael eu hail-apwyntio wedi hynny.

Anwytho a hyfforddi ymddiriedolwyr
Mae Ymddiriedolwyr yn cael eu hanwytho a'u hyfforddi gan Ymddiriedolwyr presennol a staff uwch. Fe'u hysbysir hefyd am faterion elusennol trwy gylchlythyrau rheolaidd i Ymddiriedolwyr gan y Comisiwn Elusennau, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi allanol a allai fod o ddiddordeb.

Trefniadau ar gyfer pennu cydnabyddiaeth ariannol personél allweddol y rheolaeth
Rheolir y sefydliad gan y Prif Swyddog, L G McLean, sy'n goruchwylio gwaith yr holl staff. Mae'r Bwrdd yn pennu'r gydnabyddiaeth ariannol.

Strwythur trefniadol
Sefydlwyd y sefydliad gyntaf ym 1992. Mae'r sefydliad wedi ehangu i gynnwys Theatr Gymunedol ddwyieithog (Theatr Soar), prosiect sydd wedi llwyddo i sicrhau bron i £1.4 miliwn i adnewyddu'r Ganolfan Gymraeg a thrawsnewid hen gapel Cymraeg yn Theatr Gymunedol. Enw'r Ganolfan bellach yw Canolfan Soar.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Rheolir y sefydliad gan y Prif Swyddog, L G McLean, sy'n goruchwylio gwaith yr holl staff.

Mae bwrdd Ymddiriedolwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn cyfarfod 8 gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a pholisi'r elusen. Nodir y gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn mewn cynllun gweithredu. Gorffwys y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y gweithgareddau'n digwydd a dros gyrraedd targedau'r elusen ar y Prif Swyddog.

Perthnasoedd â phartïon cysylltiedig
Mae'r elusen wedi datblygu perthynas waith da gydag ystod eang o sefydliadau perthnasol. Mae sefydliadau iaith Gymraeg eraill sy'n gwasanaethu cymuned Merthyr Tudful bellach wedi'u lleoli o fewn adeilad Canolfan Soar.

Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn gweithio'n agos gyda sefydliadau Mentrau Iaith eraill ledled Cymru trwy rwydwaith Mentrau Iaith Cymru.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Gwybodaeth yr Elusen
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Ymddiriedolwyr

A Carpenter (penodwyd 08/03/2023)
H Davies (penodwyd 08/03/2023)
S Harris (penodwyd 24/10/2022)
M L Howells (penodwyd 16/05/2007)
N M Hughes (penodwyd 08/03/2023)
L R Jones (penodwyd 24/10/2022)
G E Morgan (penodwyd 08/03/2023)
S Ward (penodwyd 24/10/2022)

Ysgrifennydd	L G McLean
Prif Swyddog	L G McLean
Cyfeiriad	Neuadd Soar Pontmorlais Merthyr Tudful Mid Glamorgan CF47 8UB
Rhif Cofrestru'r Cwmni	06249902
Rhif Cofrestru'r Elusen	1124473
Arolygwr Annibynnol	Llŷr James Cyf Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig 25 Stryd Y Bont Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3JS

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Gwybodaeth yr Elusen
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Offerynnau Ariannol

Amcanion a pholisïau
Mae gweithgareddau'r elusen yn ei gwneud yn agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risg credyd, risg llif arian, a risg datodiad.

Risg credyd
Prif asedau ariannol yr elusen yw balansau banc ac arian parod, masnach a derbynyddion eraill.

Mae risg credyd yr elusen yn bennaf i'w gwneud a derbyniadau masnach. Mae'r symiau a gyflwynwyd ar y fantolen yn net o'r lwfansau ar gyfer derbyniadau amheus. Caiff lwfans ar gyfer amhariad ei wneud pan fo digwyddiad o golled wedi ei ddynodi, sydd, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, yn dystiolaeth o leihad yn y ffordd y gellid adfer y llif arian.

Prif risgiau a rheoli'r risgiau hynny
Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi ymchwilio'r risgiau busnes a gweithredol strategol mwyaf y mae'r elusen yn eu hwynebu ac yn cadarnhau bod systemau wedi eu sefydlu i alluogi cynhyrchu adroddiadau rheolaidd fel y gellir cymryd y camau angenrheidiol i leihau'r risgiau hyn.

Cafodd systemau eu rhoi mewn lle i gynhyrchu cyllidebau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a monitro'r incwm a gwariant bob chwarter yn erbyn ei gyllideb. Mae'r Ymddiriedolwyr yn sicrhau fod y systemau yn ddigonol ar gyfer iechyd ariannol cyfredol yr elusen.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr
Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful at ddibenion cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig) a chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol yn ôl cyfraith cwmni fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. 0 dan gyfraith cwmni, rhaid i'r ymddiriedolwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ac o'i hadnoddau sy'n dod i mewn, a chymhwysedd adnoddau, yn cynnwys ei hincwm a'i gwariant, ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol bod yr ymddiriedolwyr yn:

- dethol polisïau cyfrifyddu priodol a'u cymhwyso'n gyson;
- cadw at ddulliau ac egwyddorion yn y Datganiad o Arfer Argymhellir ar gyfer Elusennau
- pasio barn ac amcangyfrifon sy 'n rhesymol ac yn bwyllog
- datgan a yw Safonau Cyfrifyddu DU wedi cael eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a gaiff eu hesbonio yn y datganiadau ariannol: a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail barhaol oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes

Datganiad o Gyfrifoldebau

Cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr yw cadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigon i ddangos ac esbonio trafodion elusennol y cwmni a datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'u galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydsynio â Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Cafodd yr adroddiad blynyddol ei gymeradwyo gan ymddiriedolwyr yr elusen ar 28-01-2026 a'i arwyddo ar ei ran gan

Signed by:
Ann-Marie Carpenter
9079781CAAF0484...

A Carpenter
Ymddiriedolwr

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

LLŶR JAMES
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

ffôn/tel 01267 237754
ffacs/fax 01267 238418
ebost/email post@llyrjames.co.uk
gwefan/website www.llyrjames.co.uk

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful
Adroddiad Yr Arolygwr Annibynnol
Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Yr wyf yn adrodd yn ôl i'r grŵp o ymddiriedolwyr yn sgil arolwg cyfrifon cyfunol Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful a'r is-gwmnïau yr ymgymerwyd â hwy ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025.

Cyfrifoldebau a sail yr Adroddiad
Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Nid yw arolwg annibynnol yn cynnwys casglu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ac o ganlyniad nid yw'n cynnwys yr holl faterion y mae'r archwiliwr yn eu hystyried wrth roddi ei farn am y cyfrifon. Mae cynllunio a chyflawni archwiliad yn mynd y tu hwnt i'r sicrwydd cyfyngedig y gall arholwr annibynnol ei ddarparu. O ganlyniad, nid wyf yn mynegi unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon cyfunol presennol yn cyflwyno barn 'gwir a theg' ac mae f'adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion penodol hynny a osodwyd allan yn natganiad yr arholwr annibynnol.

Datganiad yr arolygwr annibynnol
Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Cyfarwyddwyr: Bethan Vaughan FCCA, Ryan Bevan FCCA
Cofrestrwyd i wneud gwaith archwilio yn y Deyrnas Unedig
gan Gymdeithas Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Llŷr James yw enw masnachu Llŷr James Cyf. Rhif Cofrestredig 08272778 Cymru

Directors: Bethan Vaughan FCCA, Ryan Bevan FCCA
Registered to carry on audit work in the UK
by the Association of Chartered Certified Accountants
Llŷr James is the trading name of Llyr James Cyf. Registered Number
08272778 Wales

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

DocuSigned by:
Bethan Vaughan
8A7F03B26B1E49F...

Bethan Wyn Vaughan FCCA
Llŷr James Cyf
Cyfrifydd Ardystiedig Siartredig
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

Dyddiad: 28-01-2026

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Datganiad Cyfunol o Weithgaredd Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Incwm a Gwaddolion oddi wrth:					
Roddion a chymynroddion	3	168,077	69,057	237,134	202,209
Gweithgareddau Elusennol	5	93,975	0	93,975	85,396
Gweithgareddau masnachu eraill	6	144,562	0	144,562	142,487
Incwm Buddsoddi	7	7	0	7	258
Cyfanswm Incwm		406,621	69,057	475,678	430,350
Gwariant ar:					
Codi Cyllid	8	(97,611)	0	(97,611)	(104,570)
Gweithgareddau elusennol	9	(284,265)	(105,101)	(389,366)	(384,462)
Cyfanswm gwariant		(381,876)	(105,101)	(486,977)	(489,032
Gwariant net		24,745	(36,044)	(11,299)	(58,682)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		0	0	0	0
Symudiad net mewn cyllid		24,745	(36,044)	(11,299)	(58,682)
Cysoni cronfeydd					
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		1,115,784	44,993	1,160,777	1,219,459
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen	22	1,140,529	8,949	1,149,478	1,160,777

Mae holl weithgareddau'r grŵp yn deillio o weithrediadau parhaus yn ystod y ddau gyfnod uchod.

Dangosir dadansoddiad cyllid ar gyfer 2025 yn nodyn 22.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 16-29 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Mantolen Cyfunol
gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 £	2024 £
Asedau sefydlog			
Asedau sylweddol	16	1,145,672	1,171,867
Asedau cyfredol			
Stoc		2,342	2,465
Dyledwyr	18	52,456	75,912
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	19	13,892	2,074
		68,690	80,451
Credydwyr: Symiau'n disgyn sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	20	(64,884)	(91,252)
Asedau net(rhwymedigaethau) cyfredol		3,806	(10,801)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		1,149,478	1,161,066
Darpariaethau	21	-	(289)
Asedau net		1,149,478	1,160,777
Cronfeydd yr Elusen:			
Cronfeydd cyfyngedig			
Cronfeydd cyfyngedig	22	8,949	44,993
Cronfeydd anghyfyngedig			
Cronfeydd anghyfyngedig		1,140,529	1,115,784
Cyfanswm Cronfeydd	22	1,149,478	1,160,777

Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2025 roedd gan yr elusen hawl i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â chwmnïau bach. Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr:

- Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r elusen gael archwiliad ariannol o'i chyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476; a
- Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf o ran cofnodion cyfrifyddu a pharatoi cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 13 i 29 gan yr ymddiriedolwyr, ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 28-01-2026 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

Signed by:
Ann-Marie Carpenter
9079781CAAF0484...

A Carpenter
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 29 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Mantolen Cyfunnol
gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 £	2024 £
Asedau sefydlog			
Asedau sylweddol	16	1,144,530	1,170,345
Buddsoddiadau		1	1
		1,144,531	1,170,346
Asedau cyfredol			
Stoc		2,342	2,465
Dyledwyr	18	42,102	56,232
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	19	11,764	815
		56,208	59,512
Credydwyr: Symiau'n disgyn sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	20	(56,189)	(68,530)
Asedau Net/(rhwymedigaethau) cyfredol		19	(9,018)
Asedau Net		1,144,550	1,161,328
Cronfeydd y grŵp:			
Cronfeydd cyfyngedig			
Cronfeydd cyfyngedig	22	8,949	44,993
Cronfeydd anghyfyngedig			
Cronfeydd anghyfyngedig		1,135,601	1,116,335
Cyfanswm Cronfeydd	22	1,144,550	1,161,328

Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2025 roedd gan yr elusen hawl i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â chwmnïau bach. Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr:

- Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r elusen gael archwiliad ariannol o'i chyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476; a
-
- Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf o ran cofnodion cyfrifyddu a pharatoi cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 13 i 29 gan yr ymddiriedolwyr, ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 28-01-2026 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

Signed by:
Ann-Marie Carpenter
9079781CAAF0484...

A Carpenter
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 29 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

1. Statws Elusennol

Mae'r elusen yn un sydd wedi ei chyfyngu gan warant, a'i hymgorffori yng Nghymru a Lloegr, ac o ganlyniad nid oes ganddi gyfran o'r cyfalaf. Mae pob un o'r ymddiriedolwyr yn atebol i gyfrannu swm nad yw'n fwy na £1 tuag at asedau'r elusen pe byddai'n methdalu.

Mae'r elusen wedi ei hymgorffori yng Nghymru a Lloegr. Cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yw: Neuadd Soar Pontmorlais Merthyr Tudful Morgannwg Ganol CF47 8UB

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi gan yr ymddiriedolwyr ar

2 Polisïau cyfrifo

Crynodeb o bolisïau cyfrifo sylweddol ac amcangyfrifon cyfrifo allweddol

Caiff y prif bolisïau cyfrifo a weithredwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu gosod isod. Cafodd y polisïau hyn eu gweithredu'n gyson ym mhob blwyddyn a gyflwynwyd, oni nodir fel arall.

Datganiad o gydymffurfiaeth

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)) (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019) - (Elusennau SORP (FRS 102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y paratoad

Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau yn ôl cost hanesyddol neu werth trafod oni nodir fel arall yn y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cyfuno datganiadau ariannol yr elusen ac ymgymeriadau ei his-gwmnïau a luniwyd hyd at 31 Mawrth 2025.

Ni chaiff unrhyw ddatganiad am weithgareddau ariannol ei gyflwyno ar gyfer yr elusen, fel y caniatawyd gan adran 408 Deddf Cwmnïau 2006. Gwnaeth yr elusen golled o ariannol ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn ariannol, sef £16,780 (2024 - diffyg £73,782).

Mae is-gwmni'n endid sy'n cael ei reoli gan yr elusen. Bydd rheolaeth wedi ei gyflawni pan fo gan yr elusen y pŵer i lywodraethu polisïau ariannol a gweithredol endid er mwyn cael buddion o'i weithgaredd.

Caiff canlyniadau is-gwmnïau caffaeledig neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn eu cynnwys yn natganiad y gweithgareddau ariannol o'r dyddiad y daeth y caffaeliad i rym neu i fyny at y dyddiad y daeth y gwaredu i rym, fel sy'n briodol. Ble y bo'n angenrheidiol, caiff addasiadau eu gwneud i ddatganiadau'r is-gwmnïau er mwyn dod â'u polisïau cyfrifo yn unol â'r rheini a ddefnyddiwyd gan y grŵp.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Caiff trafodion rhwng cwmnïau, balansau ac enillion na chaiff eu gwireddu ar drafodion rhwng yr elusen a'i his-gwmnïau, sy'n berthnasol i bartïon, eu gwaredu'n llwyr.

Caiff colledion intra-grŵp eu gwaredu hefyd ond gallent ddynodi nam sy'n gofyn am gydnabyddiaeth yn y datganiadau ariannol cyfunol.

Cafodd polisïau cyfrifo'r is-gwmnïau eu newid ble yr oedd yn angenrheidiol i sicrhau cysondeb gyda'r polisïau a fabwysiadwyd gan y grŵp.

Eithrio rhag paratoi datganiad llif arian

Dewisodd yr elusen fabwysiadu Bwletin 1 a gyhoeddwyd ar 2 Chwefror 2016 ac felly nid ydyw wedi cynnwys datganiad llif arian yn y datganiadau ariannol hyn.

Busnes hyfyw

Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu nad oes unrhyw ansicrwydd materol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel sefydliad hyfyw nac unrhyw feysydd sylweddol o ansicrwydd sy'n effeithio ar werth cario asedau a ddelir gan yr elusen.

Incwm a gwaddolion

Caiff yr holl incwm ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawliad dros yr incwm, y mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn ac y bydd y swm o'r incwm sy'n dderbyniadwy yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy.

Rhoddion a chymynroddion

Caiff rhoddion eu cydnabod pan fo'r elusen wedi cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am swm a dyddiad y setliad. Ar achlysur pan fo rhodd yn amodol ar amodau sy'n gofyn am lefel o berfformiad gan yr elusen cyn bod yr elusen â hawl i'r cyllid, caiff yr incwm ei ohirio ac ni chaiff ei gydnabod hyd nes bod yr amodau hynny'n cael eu bodloni'n llwyr, neu fod cyflawniad o'r amodau hynny yn gyfan gwbl oddi fewn i reolaeth yr elusen a'i fod yn debygol y bydd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

Grantiau derbyniadwy

Caiff grantiau eu cydnabod pan fo gan yr elusen hawliad i'r cyllid a bod unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau eto i'w diwallu, caiff yr incwm ei gydnabod fel rhwymedigaeth a'i gynnwys ar y fantolen fel incwm gohiriedig i'w ryddhau.

Gwariant

Caiff yr holl wariant ei gydnabod cyn gynted ag y bo oblygiad cyfreithiol neu adeiladol i'r gwariant hwnnw, y mae'n debygol fod angen setliad ac y gall y swm gael ei fesur mewn modd dibynadwy. Caiff yr holl gostau eu dyrannu i'r pennawd gwariant cymwys sy'n cronni costau tebyg i'r categori hwnnw. Pan na fo costau'n gallu cael eu priodoli i benawdau penodol y maent wedi eu dyrannu ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau, gyda chostau canolog staff wedi eu dyrannu ar sail amser a dreuliwyd, a chostau dibrisiad wedi eu dyrannu a ddyrannwyd ar y gyfran o'r defnydd o'r ased. Bydd costau cefnogi eraill yn cael eu dyrannu yn ôl amrediad o gostau staff.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Gweithgareddau elusennol

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny sy'n ddyledus i'r elusen wrth iddi gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Y mae'n cynnwys y costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r fath weithgareddau a'r costau hynny sydd o natur anuniongyrchol sydd eu hangen i'w cefnogi nhw.

Costau cefnogi

Mae costau cefnogi'n cynnwys swyddogaethau canolog ac maen nhw wedi cael eu dyrannu i gategorïau costau gweithgaredd ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau, er enghraifft, dyrannu costau eiddo yn ôl arwynebedd lawr, neu per capita, costau staff yn ôl yr amser a chostau eraill yn ôl y defnydd ohonynt.

Costau llywodraethant

Mae'r rhain yn cynnwys costau a briodolir â chydsynio'r elusen â gofynion cyfansoddiadol a statudol, yn cynnwys archwilio, rheoli strategol a chyfarfodydd ymddiriedolwyr ac ad-dalu costau.

Trethiant

Caiff ei ystyried fod yr elusen wedi llwyddo yn y profion a osodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly y mae'n bodloni'r diffiniad o gwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaethol DU. Gan hynny, mae'n bosibl fod yr elusen wedi ei hesgusodi rhag trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd oddi fewn i gategorïau sy'n cael eu cynnwys ym Mhennod 3 Rhan 11 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 neu Adran 256 Deddf Trethiant Enillion Taliadau 1992, i'r graddau fod incwm neu enillion o'r fath yn gymwys yn gyfan gwbl at ddibenion elusennol.

Asedau sefydlog sylweddol

Mae asedau sefydlog unigol sy'n costio £500.00 neu fwy yn cael eu cofnodi i ddechrau yn ôl cost.

Dibrisiad ac amorteiddiad

Caiff dibrisiad ei ddarparu ar asedau sefydlog sylweddol er mwyn dibrisio'r gost neu'r prisiad, llai unrhyw werth gweddilliol amcangyfrifir, dros eu bywyd economaidd defnyddiol ddisgwylied fel a ganlyn:

Dosbarth ased	Dull a chyfradd dibrisiad
Eiddo Rhydd-ddaliol	2% ar y gost
Darnau gosod ac offer	15% llai balans

Dyledwyr masnach

Y symiau sy'n ddyledus gan gwsmeriaid yw dyledwyr masnach, a hynny am nwyddau a werthwyd neu wasanaethau a berfformiwyd wrth redeg y busnes.

Caiff dyledwyr masnach eu cydnabod yn ôl pris trafodon. Caiff darpariaeth ar gyfer amhariad dyledwyr masnach ei sefydlu pan fo tystiolaeth wrthrychol na fydd yr elusen yn gallu casglu'r holl symiau sy'n ddyledus yn ôl telerau gwreiddiol y derbyniadwyon.

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod wrth law ac adneuon galw.

Credydwyr masnach

Mae credydwyr masnach yn rhwym i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi eu caffael yn ystod hynt busnes oddi wrth gyflenwyr. Mae cyfrifon taladwy yn cael eu hystyried fel rhwymedigaethau cyfredol os nad oes gan yr elusen hawl ddiamod, ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn ôl, i ohirio setliad o'r credydwr am o leiaf deuddeg mis ar ôl y dyddiad adrodd yn ôl. Os oes yna hawl ddiamod i oedi setliad am o leiaf deuddeg mis ar ôl y dyddiad adrodd yn ôl, maen nhw'n cael eu cyflwyno fel rhwymedigaethau di-gyfredol. Caiff credydwyr masnach eu cydnabod yn ôl pris trafodion.

Strwythur cronfa ariannol

Cronfeydd cyffredinol yw'r cronfeydd incwm di-gyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, ymhellach at amcanion yr elusen

Mae cronfa asedau sefydlog yn cynrychioli net gwerth llyfr eiddo ac asedau diriaethol sefydlog eraill.
Cronfeydd incwm cyfyngedig yw'r rheini sy'n cael eu rhoi i'w defnyddio mewn maes penodol neu at ddibenion arbennig, ac mae'r defnydd ohono wedi ei gyfyngu i'r maes neu'r diben hwnnw.

Pensiynau ac oblygiadau ôl- ymddeoliad eraill

Mae'r grŵp yn gweithredu cynllun cyfraniadau pensiwn diffiniedig sef cynllun pensiwn ble y caiff cyfraniadau sefydlog eu talu i gronfa bensiwn ac nad oes gan y grŵp oblygiad cyfreithiol nad adeiladol i dalu cyfraniadau pellach hyd yn oed os nad yw'r gronfa'n dal asedau digonol i dalu'r holl gyflogres a'r buddion perthnasol i wasanaeth cyflogres yn y cyfnod hwn a chyfnodau blaenorol.

Caiff cyfraniadau i gynllun cyfrannu diffiniedig eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan maent yn ddyledus.

Offerynnau ariannol dosbarthiad

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o'r fath sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol sylfaenol, sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl gwerth trafodyn.

3 Incwm oddi wrth roddion a chymynroddion

	Cronfeydd Cyffredinol	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Rhoddion a chymynroddion:				
Rhoddion oddi wrth unigolion	327	0	327	2,045
Grantiau	167,750	69,057	236,807	200,164
	168,077	69,057	237,134	202,209

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

4 Grantiau derbyniadwy

	Cronfeydd cyffredinol £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Llywodraeth Cymru	60,000	0	60,000	60,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	97,500	0	97,500	57,636
MTCBC	10,150	0	10,150	0
Loteri Treftadaeth	0	68,382	68,382	35,763
Treftadaeth Bensaernïol	0	0	0	20,000
Pilgrim Trust	0	0	0	884
Loteri Fawr	0	0	0	20,000
Pentref Byd-eang	0	0	0	1,500
Cyngor Llyfrau Cymru	100	0	100	4,381
Ty Cerdd Metal	0	675	675	0
	167,750	69,057	236,807	200,164

5 Incwm o weithgareddau elusennol

	Cronfeydd cyffredinol £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Incwm Rent	81,741	0	81,741	64,933
Gweithgareddau'r Theatr	8,455	0	8,455	15,846
Gweithgareddau'r Ganolfan	3,779	0	3,779	4,617
	93,975	0	93,975	85,396

6 Incwm o weithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd cyffredinol £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Incwm masnachu Gwaith Cyfieithu	144,562	144,562	142,487
	144,562	144,562	142,487

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

7 Incwm Buddsoddiad

	Cronfeydd cyffredinol	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£
Llog derbyniadwy ar arian cadw	7	7	258
	7	7	258

8 Gwariant ar godi arian

	Cronfeydd Cyffredinol	
	2025	2024
Costau masnachu'r is-gwmni	£	£
Cyfieithwyr llawrydd	6,811	32,420
Costau staff	77,448	57,568
Costau swyddfa	6,915	5,953
Costau adeiladau	1,511	4,989
Costau cyffredinol	2,748	3,371
Dyled ddrwg	(2,307)	(3,326)
Ffioedd cyfrifydd	2,720	2,417
Taliadau banc	236	304
Dibrisiant	381	507
Trethiant	1,018	367
Costau Hyfforddi	130	0
	97,611	104,570

9 Gwariant ar weithgareddau Elusennol

	Nodyn	Cronfeydd cyffredinol	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
		£	£	£	£
Costau uniongyrchol		1,413	41,002	42,415	137,004
Costau staff		146,538	29,429	175,967	126,538
Costau cefnogi dynodedig	10	129,921	34,670	164,591	112,292
Costau llywodraethiant	10	6,393	0	6,393	8,628
		284,265	105,101	389,366	384,462

10. Dadansoddiad o gostau llywodraethiant a chymorth

Costau llywodraethiant	Cronfeydd cyffredinol	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Ffi'r Arolygwr Annibynnol				
Arholi'r datganiadau ariannol	6,000	0	6,000	6,000
Ffioedd eraill a dalwyd i'r Arholwyr	393	0	393	2,628
	6,393	0	6,393	8,628

Docusign Envelope ID: 66FE4C0F-2533-4576-BCB3-28DF0E56D944

Dadansoddi costau cymorth

	Gweithgaredd Elusennol	Swyddogaeth Llywodraethiant	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Hysbysebu	1,983	0	1,983	5,168
Hyfforddiant	600	0	600	1,601
Costau Swyddfa	16,558	0	16,558	6,899
Costau Adeiladau	107,397	0	107,397	58,371
Costau Cyffredinol	2,390	0	2,390	3,668
Ffioedd Cyfrifeg	0	6,393	6,393	8,628
Tanysgrifiadau	2,213	0	2,213	1,768
The specific purposes for which the funds are to be applied are as follows:

Organ Fund - Organ refurbishment from Heritage Lottery Fund, Millenuim Stadium and CFAP.

Coalfield Regeneration Trust - update of computer systems

Welsh Government - Employment costs of Chief Officer and Development Officer and marketing support

Arts Council of Wales - Audience Development Project and assistance with Covid 19 pandemic

MTCBC Sets - Building works to the basement of the Canolfan building

Big Lottery - Equipment

Menter Iaith - Folk Festival

National Heritage Lottery - assistance with Covid 19 pandemic

Moondance - activities

Job Retention Scheme - Central Government Funding supporting employment through the Covid 19 pandemic

Kickstart - Employment scheme administered by Mentrau Iaith Cymru for the employment of Receptionist and Cafe staff

Davies Charities - Leeway Academi Musical Theatr Youth Project

Creu Cyffro - Arts activities in collaboration with Wellbeing@Merthyr

Ffos y Fran - Music and song workshops with Nurseries

Summer of fun - Rock and arts workshops and drama summer school

22 Analysis of net assets between funds

Grŵp

	Cronfeydd Cyffredinol	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2023
	£	£	£
Asedau sefydlog diriaethol	1,193,648	11,259	1,204,907
Asedau cyfredol	42,114	44,169	86,283
Rhwymedigaethau presennol	(71,731)	0	(71,731)
Cyfanswm net assets	1,164,031	55,428	1,219,459

	Cronfeydd Cyffredinol	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2022
	£	£	£
Asedau sefydlog diriaethol	1,224,601	10,193	1,234,794
Asedau cyfredol	78,927	87,634	166,561
Rhwymedigaethau presennol	(55,743)	0	(55,743)
Cyfanswm net assets	1,247,785	97,827	1,345,612

Elusen

	Cronfeydd Cyffredinol	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2023
	£	£	£
Asedau sefydlog diriaethol	1,191,618	11,259	1,202,877
Buddsoddiadau Asedau Sefydlog	1	0	1
Asedau cyfredol	9,389	44,169	53,558
Rhwymedigaethau presennol	(27,009)	0	(27,009)
Cyfanswm net assets	1,173,999	55,428	1,229,427

	Cronfeydd Cyffredinol	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2022
	£	£	£
Asedau sefydlog diriaethol	1,224,601	10,193	1,234,794
Buddsoddiadau Asedau Sefydlog	1	0	1
Asedau cyfredol	46,960	87,634	134,594
Rhwymedigaethau presennol	(23,497)	0	(23,497)
Cyfanswm net assets	1,248,065	97,827	1,345,892

22 Analysis of net assets between funds

Group

	General Funds	Restricted Funds	Total Funds at 31/03/2023
	£	£	£
Tangible fixed assets	1,193,648	11,259	1,204,907
Current assets	42,114	44,169	86,283
Current liabilities	(71,731)	0	(71,731)
Total net assets	1,164,031	55,428	1,219,459

	General Funds	Restricted Funds	Total Funds at 31/03/2022
	£	£	£
Tangible fixed assets	1,224,601	10,193	1,234,794
Current assets	78,927	87,634	166,561
Current liabilities	(55,743)	0	(55,743)
Total net assets	1,247,785	97,827	1,345,612

Charity

	General Funds	Restricted Funds	Total Funds at 31/03/2023
	£	£	£
Tangible fixed assets	1,191,618	11,259	1,202,877
Fixed asset investments	1	0	1
Current assets	9,389	44,169	53,558
Current liabilities	(27,009)		(27,009)
Total net assets	1,173,999	55,428	1,229,427

	General Funds	Restricted Funds	Total Funds at 31/03/2022
	£	£	£
Tangible fixed assets	1,224,601	10,193	1,234,794
Fixed asset investments	1	0	1
Current assets	46,960	87,634	134,594
Current liabilities	(23,497)	0	(23,497)
Total net assets	1,248,065	97,827	1,345,892

CANOLFAN A MENTOR GYMRAEG MERTHYR TUDFUL

England & Wales - Charity number 1124473

Accounts

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 06249902

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1124473

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

(Cwmni cyfyngedig drwy warant) Adroddiad

Blynyddol a Datganiadau Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2022

Mitchell Meredith Limited
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwiliwr Statudol
Y Ganolfan Fusnes
Parc Busnes Triongl
Merthyr Tudful
Morgannwg Ganol
CF48 4TQ

Company registration number: 06249902

Charity registration number: 1124473

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

(A company limited by guarantee)

Annual Report and Financial Statements

for the Year Ended 31 March 2022

Mitchell Meredith Limited
Chartered Accountants and Statutory Auditor
The Business Centre
Triangle Business Park
Merthyr Tydfil
Mid Glamorgan
CF48 4TQ

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 i 12
Adroddiad Arholwr Annibynnol	13 i 14
Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol	15
Mantolen Cyfunol	16
Mantolen	17
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	18 i 34

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Contents

Trustees' Report	1 to 12
Independent Examiner's Report	13 to 14
Consolidated Statement of Financial Activities	15
Consolidated Balance Sheet	16
Balance Sheet	17
Notes to the Financial Statements	18 to 34

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr, sy'n gyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith cwmni, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ynghyd â datganiadau ariannol y cwmni elusennol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Nodau ac amcanion

Datblygu addysg a gwybodaeth gyffredinol y gymuned, drwy sefydlu a chynnal canolfan er mwyn annog astudiaeth a defnydd o'r iaith Gymraeg, gyda darpariaeth o ddarlithoedd, grwpiau trafod, a gweithgareddau celfyddydol drwy gyfrwng yr iaith honno.

Crynodeb Gweithredol

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn ganolbwynt i ddatblygiad y Gymraeg trwy weithrediad Canolfan Soar ac integreiddiad y Gymraeg i'r gymuned leol.

Amcan strategol Menter Iaith Merthyr Tudful yw cefnogi cyflawniad strategaeth Cymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr; trwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gwneir hyn drwy gyflawni targedau a osodwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Rhwydwaith Mentrau Iaith ledled Cymru.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Creu Cymru yr ydym oll am fyw ynddi heddiw, ac yn y dyfodol sy'n mynd law yn llaw â Strategaeth y Gymraeg. Yn ganolog i ethos ein sefydliad yw bod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn ffynnu ym Merthyr Tudful.

Cyflwyniad Cryno

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithredu fel rhan o rwydwaith o bartneriaid Cymraeg sydd yn gwasanaethu'r ardal gan gynnwys Dysgu Cymraeg Morgannwg (CiO), Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin a Chymraeg i Blant. Mae'r Fenter yn aml yn cyfeirio unigolion a sefydliadau at y partneriaid eraill a chaiff ei hystyried fel y 'glud' sydd yn gwneud i'r Rhwydwaith weithredu'n llwyddiannus yn ein cymuned. Mae sefydlu Canolfan Soar fel cartref i bartneriaid Cymraeg yng nghanol tref Merthyr wedi bod yn allweddol i gydweithrediad ein sefydliadau wrth gyflawni Strategaethau Llywodraeth Cymru ers 2011.

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol, celfyddydol a llesiant i gyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau newydd. Ymdrechwn at ymateb i'n cymuned leol a myfyrio arni.

Cyd-destun

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw un o'r lleiaf yng Nghymru. Hen ardal ddiwydiannol yw hi ac er mor gryf yw'r rhwydweithiau cymdogol a'r ymdeimlad o berthyn, mae ei phoblogaeth yn dal i ddioddef sgil effeithiau diflaniad y diwydiannau mawr traddodiadol. Mae lefelau diweithdra yma gyda'r uchaf yng Nghymru a dyma'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl ffigurau'r Llywodraeth. Felly mae heriau sylfaenol i'r awdurdod lleol o ran iechyd, lles, cyflogaeth a sgiliau pobl yr ardal.

Cafodd Menter Iaith Merthyr Tudful ei sefydlu yn 2003 ar ôl blynyddoedd o weithgaredd gwirfoddol yn lleol. Nod y Fenter Iaith yw ehangu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal drwy feithrin cyfleoedd a gwasanaethau i drigolion y sir ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau lleol.

Cyd-destun Cyfnod ers Cofid-19

Merthyr Tudful yw un o'r ardaloedd sydd wedi cael ei heffeithio fwyaf gan y Coronafeirws gyda chanolfannau profi ledled y sir a chanrannau heintus uchaf Cymru ar adegau. Fel sefydliad sydd wedi gwreiddio yn ein cymuned, mae angen i ni gefnogi adfywiad ein hardal a gweithio mewn ffyrdd gwahanol er mwyn goresgyn y cyfnod anodd hwn.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Trustees' Report

The trustees, who are directors for the purposes of company law, present the annual report together with the financial statements of the charitable company for the year ended 31 March 2022.

Aims and objectives

Developing the education and general knowledge of the community, by establishing and maintaining a centre in order to encourage the study and use of the Welsh language, with the provision of lectures, discussion groups, and artistic activities through the medium of that language.

Executive Summary

Menter Iaith Merthyr Tydfil is a centre for the development of the Welsh language through the operation of Canolfan Soar and the integration of the Welsh language into the local community.

The strategic objective of Menter Iaith Merthyr Tydfil is to support the objective of the Welsh Government's Welsh strategy, Welsh 2050: A Million Speakers; by increasing the use of the Welsh language in the community. This is done by achieving targets set in collaboration with the Welsh Government with the support of the Mentrau Iaith Network throughout Wales.

The aim of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is to create the Wales we all want to live in today, and in the future which goes hand in hand with the Welsh Language Strategy. Central to the ethos of our organisation is that the culture, heritage and the Welsh language flourish in Merthyr Tydfil.

Brief Introduction

Menter Iaith Merthyr Tydfil operates as part of a network of Welsh partners serving the area including Dysgu Cymraeg Glamorgan (CiO), Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin and Welsh for Children. The Initiative often refers individuals and organisations to the other partners and is seen as the 'glue' that makes the network operate successfully in our community. The establishment of Canolfan Soar as a home for Welsh partners in Merthyr town centre has been key to the cooperation of our organisations in achieving Welsh Government Strategies since 2011.

Menter Iaith Merthyr Tydfil works in partnership with a wide variety of community, arts and well-being organisations to reach new audiences and communities. We strive to respond to and reflect our local community.

Context

Merthyr Tydfil County Borough is one of the smallest in Wales. It is an old industrial area and despite the strength of neighbourhood networks and the sense of belonging, its population is still suffering the side effects of the decline in the large traditional industries. Unemployment levels here are among the highest in Wales and this is also the most deprived area in Wales according to Government figures. There are fundamental challenges for the local authority in terms of the health, well-being, employment and skills of the people in the area.

Menter Iaith Merthyr Tydfil was established in 2003 after years of voluntary activity locally. The aim of the Menter Iaith is to expand and strengthen the use of the Welsh language in the area by fostering opportunities and services for residents of the county to use the Welsh language in their local communities.

Context of Period since Covid-19

Merthyr Tydfil is one of the areas that has been most affected by the Coronavirus with testing centres throughout the county and at times the highest infection rates in Wales. As an organisation rooted in our community, we need to support the regeneration of our area and work in different ways to overcome these difficult times.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r cyfnod clo wedi dod â chyfleoedd yn ogystal â rhwystrau i'n sefydliad. Rydym wedi cael amser i feddwl yn wahanol am beth sy'n bwysig i ni. Trwy fod yn rhan o drafodaethau cenedlaethol am y Gymraeg a'r Celfyddydau yng Nghymru rydym wedi ffocysu ar y meysydd celfyddydol a threftadaeth fel ffordd o gyflawni ein huchelgais o gyrraedd a chefnogi ein cymuned i ffynnu.

Budd y cyhoedd

Mae gweithgareddau elusennol y Fenter wedi cyfrannu at dwf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg ym Merthyr, codi hyder a hunan-barch ac ehangu gorwelion trigolion Merthyr.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydsynio â gofynion Adran 4 Deddf Elusennau 2011 o ran talu'r sylw dyledus at ganllawiau buddion cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr.

Cefnogi'r gymuned yn sgil Covid-19

O ddechrau'r cyfnod digwyddodd pob elfen o'n gwaith cyfathrebu yn ddigidol. Caniataodd hyn i ni gadw mewn cysylltiad gyda'n cyfranogwyr a'r gymuned ehangach, er mwyn dangos i'r gymuned ein bod ni yno i'w cefnogi yn ystod y cyfnod anodd yma. Arweiniodd hyn, yn naturiol, at gynnydd mawr yn ein presenoldeb ar lein, wrth i ni rannu gwybodaeth ar ein platfformau fel: Facebook, Twitter ac Instagram.

Oherwydd strwythur y platfform a sgiliau technegol ein cyfranogwyr, digwyddodd y rhan fwyaf o'n cyfathrebu a'n gweithgareddau trwy gyfrwng Facebook. Fe ddefnyddiwyd platfformau fel MailChimp i aros mewn cysylltiad gyda'n defnyddwyr ehangach a rhaglenni fel Zoom er mwyn cynnal ein sesiynau siarad wythnosol. Golygodd hyn gynnydd yn y nifer o bobl sy'n ymgysylltu a'n platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â'n cyfathrebu digidol, er mwyn aros mewn cysylltiad gyda phobl sydd heb fynediad at y we, rhannwyd gwybodaeth yn y papur bro lleol, sy'n cael ei bostio at bobl yn y gymuned. Anelwyd y rhan fwyaf o'n negeseuon a'n gweithgareddau at ofalu am iechyd a lles ein cymuned.
O ran presenoldeb ar-lein, parhaodd waith rhithiol yn dilyn cyfnod Covid gyda gweithgareddau megis cystadleuaeth fisol, rhannu cân yr wythnos a 'pethau'r penwythnos.

Bu cynnydd yn ein presenoldeb ar-lein wedi arwain at gynnydd eithaf sylweddol yn ein niferoedd o ddilynwyr ar ein platfformau.

Bwrdd Llywodraethu

Aed ati eleni'n llwyddiannus i recriwtio aelodau newydd i Fwrdd Llywodraethu Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

Gweithgareddau: Cyfnod 1 Ebrill – 31 Mawrth 2022

Hyrwyddo'r Gymraeg: Yn Lleol

Cyfrannodd y Prif Swyddog at:

- Gynhadledd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Merthyr;
- Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Merthyr;
- Grŵp Strategol y Gymraeg Cyngor Merthyr;
- Fforwm Sirol Cymraeg Merthyr.

Cyflwynodd y Fenter ymateb i ymgynghoriad y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg.

Cynhaliwyd sesiwn paned agored i Gynghorwyr yng Nghaffi Soar gyda chefnogaeth cangen Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) lleol er mwyn trafod materion addysg Gymraeg

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Trustees' Report

The lockdown period has brought opportunities as well as obstacles to our organisation. We have had time to think differently about what is important to us. By being part of national discussions about the Welsh language and the Arts in Wales we have focused on the arts and heritage areas as a way of achieving our ambition to reach and support our community to flourish.

Public benefit

The Menter's charitable activities have contributed to a growth in the use of the Welsh language in Merthyr, raising confidence and self-esteem and broadening the horizons of Merthyr residents.

The trustees confirm that they have consented to the requirements of Section 4 of the Charities Act 2011 in terms of paying due attention to public benefit guidelines published by the Charity Commission for England and Wales.

Supporting the community in the wake of Covid-19

From the beginning of the period every aspect of our communication work took place digitally. This allowed us to keep in touch with our participants and the wider community, in order to show the community that we are there to support them during this difficult time. This naturally led to a large increase in our online presence, as we shared information on our platforms such as: Facebook, Twitter and Instagram.

Due to the structure of the platform and the technical skills of our participants, most of our communication and activities took place through Facebook. Platforms such as MailChimp were used to stay in touch with our wider users and programs such as Zoom to hold our weekly speaking sessions. This meant an increase in the number of people engaging with our social media platforms.

In addition to our digital communication, in order to stay in touch with people who do not have access to the web, information was shared in the local paper, which is posted to people in the community. Most of our messages and activities were aimed at looking after the health and well-being of our community.

In terms of online presence, virtual work continued following the Covid period with activities such as a monthly competition, sharing a song of the week and *'pethau penwythnos'*.

An increase in our online presence has led to a fairly significant increase in the number of followers on our platforms.

Governing Board

This year we successfully recruited new members to the Governing Board of the Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

Activities: Period 1 April – 31 March 2022

Promoting the Welsh language: Locally

The Chief Officer contributed to:

- Welsh Language Promotion Strategy Conference Merthyr Council;
- Merthyr Council's Welsh Education Forum;
- Merthyr Council's Welsh Language Strategic Group;
- Merthyr Welsh County Forum.

The Menter submitted a response to the Welsh Education Strategic Plan consultation.

An open panel session for Councillors was held at Caffi Soar with the support of the local Parents for Welsh Education (RhAG) branch to discuss Welsh education issues.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Bu i'r Fenter gynnal cyfarfod gydag ymgynghorwyr sy'n arwain ar yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant er mwyn eu darbwyllo i ymgynghori gyda theuluoedd sy'n ystyried dewis addysg Gymraeg i'w plant.

Cyfrannodd y Prif Swyddog at drafodaethau am ddatblygiad Cynllun Datblygiad Economaidd i Ferthyr Tudful ac o ganlyniad mae'r Gymraeg a datblygiad Mentrau Cymdeithasol wedi eu cynnwys yn y Cynllun.

Mae'r Fenter yn y broses o sefydlu Rhwydwaith Diwylliannol ar y cyd gyda'r Cyngor, yr Ymddiriedolaeth Hamdden a Choleg Merthyr. Eisoes cynhaliwyd sesiynau gyda'r gymuned ai drafod egwyddorion a gweledigaeth y rhwydwaith newydd. Ariennir y prosiect gan gynllun Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Bu i'r Prif Swyddog gymryd rhan mewn Arolwg Estyn o wasanaethau addysg Cyngor Merthyr Tudful fel un o'r partneriaid cymunedol.

Cafodd y Prif Swyddog gyfarfod llwyddiannus gyda Rheolwraig y 'Business Investment District' ym Merthyr i drafod Cymreigio eu gwasanaeth.

Hyrwyddo'r Gymraeg: Yn Genedlaethol

Cyfrannodd y Prif Swyddog at gynhadledd Cwmni Iaith yn dwyn y teitl: Creu Lleoedd i'r Gymraeg Ffynnu. Sut Gall Cynghorau Cymuned a Thref Gyfrannu at Lesiant y Gymraeg? Cyflwynwyd Canolfan a Theatr Soar fel astudiaeth achos i ddangos' 'Datblygu Cymunedol a Iaith Gymraeg Sy'n Ffynnu Mewn Cyd-destun Trefol (Merthyr Tudful).

Cadeiriodd y Prif Swyddog sesiwn rithiol rhwydwaith What Next? Cymru wedi ei drefnu gan Einir Siôn, Swyddog ysgogi'r Gymraeg Cyngor Celfyddydau Cymru. Trafodwyd Strategaeth Cymraeg newydd Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ffordd i fynd ati i ymgynghori ar y Strategaeth. Mynychodd y Prif Swyddog sesiwn ymgynghori ar iaith a diwylliant.

Mynychodd y Prif Swyddog sesiwn ymgynghori Tai Cymunedol Cymru, Mentrau Iaith Cenedlaethol.

Hyrwyddo'r Gymraeg: Tu hwnt

Bu i'r Prif Swyddog gyfrannu fel Siaradwr Gwadd mewn Cynhadledd Rhwydwaith Treftadaeth y Deyrnas Unedig gan gyflwyno gwaith y Fenter a Chanolfan Soar i'r cynadleddwyr fel enghraifft lwyddiannus o gydweithredu, ymgysylltu a datblygu cymunedol trwy gyfrwng treftadaeth a'r Gymraeg.

Gweithio mewn partneriaethau

Partneriaeth gyda phrosiect Comin Gelligaer

Yn dilyn ein prosiect 'Gair Cymraeg Mercher' gyda Chomin Gelligaer a Merthyr, cafodd y Fenter gais i arwain prosiect tebyg gyda mudiad arall yn yr ardal, sy'n codi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n digwydd o gwmpas Afon Taf Bargod. Mae'r prosiect hwn yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, trwy helpu mudiad lleol i ddenu sylw at brosiect lleol pwysig.

The Menter held a meeting with consultants who lead on the Child Care Sufficiency Assessment in order to convince them to consult with families who are considering choosing Welsh education for their children.

The Chief Officer contributed to discussions about the development of an Economic Development Plan for Merthyr Tydfil and as a result the Welsh language and the development of Social Enterprises have been included in the Plan.

The Menter is in the process of establishing a Cultural Network jointly with the Council, the Leisure Trust and Coleg Merthyr. Sessions have already been held with the community to discuss the principles and vision of the new network. The project is funded by the Arts Council of Wales' Connect and Flourish scheme.

The Chief Officer took part in an Estyn Inspection of Merthyr Tydfil Council's education services as one of the community partners.

The Chief Officer had a successful meeting with the Manager of the 'Business Investment District' in Merthyr to discuss the Welsh language within its service.

Promoting the Welsh language: Nationally

The Chief Officer contributed to a Cwmni Iaith conference entitled: Placemaking for a Thriving Welsh Language. How Community & Town Councils can contribute to the Welsh Well-Being Goal? Canolfan a Theatr Soar was presented as a case study to show 'Community Development and a Welsh Language That Thrives in an Urban Context' (Merthyr Tydfil).

The Chief Officer chaired a virtual session of the What Next? Cymru organised by Einir Sion, Welsh Language Enabler of the Arts Council of Wales. The Arts Council of Wales' new Welsh language strategy was discussed and the process of consulting on the strategy. The Chief Officer attended a consultation session on language and culture.

The Chief Officer attended the consultation session of Community Housing Cymru, Mentrau Iaith Cennedlaethol.

Promoting the Welsh language: Beyond

The Chief Officer contributed as a Guest Speaker at a United Kingdom Heritage Network Conference presenting the work of Fenter a Chanolfan Soar to the delegates as a successful example of collaboration, engagement and community development through the medium of heritage and the Welsh language.

Working in partnerships

Partnership with the Gelligaer Common project

Following our 'Gair Cymraeg Mercher' project with Comin Gelligaer and Merthyr, the Menter was asked to lead a similar project with another organisation in the area, which raises awareness of the work that takes place around the Afon Taf Bargod. This project is a great opportunity to raise awareness of the Welsh language, by helping a local organisation to attract attention to an important local project.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Partneriaeth gyda Cerdd Cymunedol Cymru

Mae nifer o weithgareddau llwyddiannus wedi digwydd.

Ysgol Roc: Gweithio gyda Menter Iaith RhCT; perfformiadau yn Tafwyl, Parti Ponty, Noson Meic Agored Caffi Soar.

Sesiynau Iwcalili: Sesiynau Ukelele y grwpiau Tudfulele yn denu criw selog i'r ddwy sesiwn ar gyfer plant ac oedolion.

Partneriaeth gydag Urdd Gobaith Cymru

Mae ein perthynas gyda'r Urdd Gobaith Cymru wedi ei atgyfnerthu ac mae'r Urdd Gobaith Cymru yn defnyddio swyddfa yn Soar yn rheolaidd.

Bu i bartneriaeth rhwng Menter Iaith, Coleg Merthyr, Gwasanaethau Ieuenctid Merthyr ac Urdd Gobaith Cymru drefnu taith llesiant i bobl ifanc. Roedd nifer o sialensiau ond trefnwyd bod taith yn digwydd ddiwedd Ebrill. Oherwydd cau Gwersyll Llangrannog i ymwelwyr bu rhaid ail-drefnu lleoliad ond cafwyd cymorth gan Urdd Gobaith Cymru i sicrhau lleoliad amgen sef Canolfan yr Urdd, Caerdydd.

Cynhaliwyd amserlen lawn o ddigwyddiadau rheolaidd.

- prynhawn i rieni a phlant yn ystod gêm agoriadol Pencampwriaeth y Chwe Gwlad i wylio'r gêm ar y sgrin fawr;
- dathliad dros ginio Dydd Gŵyl Dewi: Caffi Soar, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant;
- gweithdy berfformio wythnosol i blant: Cwmni Blodau Haul
- Ysgol Roc, gyda thri arall yn y calendr ar y cyd gyda Cerdd Cymunedol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru – gweler uchod
- Gweithdai iwcalili wythnosol i blant ac oedolion ar y cyd gyda Cerdd Cymunedol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru – gweler uchod
- Pedwar gweithdy gwyliau i blant;
- Dwy Eisteddfod ranbarthol;

Partneriaeth gydag ysgolion lleol

- Yn ystod misoedd Mai a Mehefin cynhaliwyd cwrs chwe wythnos gyda grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 gyda'r bwriad o gynnig cyfle i ddisgyblion ffocysu ar ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith lafar gyda'r Swyddog Datblygu yn cydlynu'r cwrs a chreu cynnwys. Ar ddiwedd y cyfnod roedd pawb wedi creu deialog mewn grwpiau er mwyn trafod y pynciau dan sylw yn y sesiynau.
- Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd Cwis Dim Clem yn genedlaethol am y tro cyntaf. Roedd Blwyddyn 6 o ysgol Gymraeg Rhyd-y-Grug wedi cynrychioli Merthyr yn y rownd genedlaethol ac roeddent yn llwyddiannus tu hwnt. Daeth y tîm yn drydydd drwy Gymru a'r disgyblion wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Partneriaeth gyda Chyngor Merthyr Tudful (digwyddiadau)

- Cyngerdd dathlu Eisteddfodau clystyrau Ysgolion Cyfarthfa a Phen y Dre.
- Cynhaliwyd Ffair gelf a Chrefft gydag ymweliad gan Sion Corn ym mis Rhagfyr gyda 11 o stondinau crefftau lleol yn bresennol gan gynnwys y grŵp gwau sy'n cwrdd yn wythnosol yng Nghaffi'r Ganolfan. Mynychodd dros 300 y Ffair gyda 38 o blant yn dod i weld Sion Corn.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Trustees' Report

Partnership with Cymru Community Music

A number of successful activities have taken place.

Ysgol Roc; Working with Menter Iaith RCT; performances at Tafwyl, Ponty Party, Caffi Soar Open Mic Evenings.

Ukulele sessions: The Ukelele sessions of the Tydfulele groups attract a dedicated crowd to both children and adult sessions.

Partnership with Urdd Gobaith Cymru

Our relationship with the Urdd Gobaith Cymru has been strengthened and Urdd Gobaith Cymru uses an office in Soar regularly.

A partnership between Menter Iaith, Coleg Merthyr, Merthyr Youth Services and Urdd Gobaith Cymru organised a well-being trip for young people. There were a number of challenges, but a trip was arranged that will take place at the end of April. Due to the closure of Gwersyll Llangrannog to visitors, the location had to be rearranged but help was obtained from Urdd Gobaith Cymru to secure an alternative location which was the Vanolfan yr Urdd centre, Cardiff.

A full schedule of regular events was held.

- an afternoon for parents and children to watch the opening game of the Six Nations Championship on the big screen;
- celebration over St David's Day lunch: Caffi Soar, Mudiad Meithrin, Welsh for Children;
- a weekly performance workshop for children: Cwmni Blodau Haul
- Ysgol Roc, with three others in the calendar together with Cerdd Cymunedol Cymru and Urdd Gobaith Cymru - see above
- Weekly ukulele workshops for children and adults in conjunction with Cerdd Cymunedol Cymru and Urdd Gobaith Cymru - see above
- Four holiday workshops for children;
- Two regional Eisteddfodau.

Partnership with local schools

- During the months of May and June a six-week course was held with a group of Year 8 pupils with the intention of offering pupils an opportunity to focus on using Welsh as a spoken language with the Development Officer coordinating the course and creating content. At the end of the period everyone had created a dialogue within groups in order to discuss the topics covered in the sessions.
- This year, for the first time, Cwis Dim Clem was held nationally for the first time. Year 6 from Rhyd-y-Grug Welsh School represented Merthyr in the national round and were extremely successful. The team came third throughout Wales and the pupils enjoyed the experience very much.

Partnership with Merthyr Tydfil Council (events)

- A concert to celebrate the Eisteddfodau of the Cyfarthfa and Pen y Dre School clusters.
- An art and craft fair was held with a visit from Father Christmas in December with 11 local craft stalls present including the knitting group who meet weekly in the Canolfan's Cafe. Over 300 attended the Fair with 38 children coming to see Father Christmas.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Partneriaeth gyda Mudiad Meithrin

Cynhaliwyd grŵp Ti a Fi (6-10 o blant) gan Mudiad Meithrin a Grŵp Tylino Babi (5-6 o blant) gan Cymraeg i Blant wedi cyfarfod yn wythnosol ers mis Mehefin 2021 gyda'r rhieni/gwarchodwyr yn cymdeithasu yng Nghaffi Soar cyn pob sesiwn

Partneriaeth gyda Lles Merthyr

Rydym wedi parhau i arwain ar brosiect ar y cyd gyda Lles Merthyr, sy'n gofyn i bobl rannu lluniau o'r ardal leol gyda ni, gan ganolbwyntio ar wahanol thema bob wythnos.

Partneriaeth gyda Coleg Merthyr

Cynhaliwyd cwis hwyliog am Gymru a'r Gymraeg gyda'r myfyrwyr er mwyn dathlu eu bod wedi cwblhau'r asesiadau llafar. Yn ogystal â'r cwis, roedd y sesiwn hefyd yn gyfle gwych i'r myfyrwyr siarad am eu prosiectau gyda rhywun gwahanol, ac i ateb a holi cwestiynau.

Partneriaeth gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg

Cynhelir nosweithiau misol i ddysgwyr ar y cyd gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg. Yn dilyn cais gan Dysgu Cymraeg Morgannwg, mae rhai aelodau o'r staff wedi cytuno i fod yn bartneriaid sgwrsio fel rhan o'r cynllun 'Siarad'.

Rydym wedi cydweithio gyda'r swyddog dysgu anffurfiol, er mwyn datblygu cyfres o nosweithiau cymdeithasol ar ddiwedd bob mis, gyda siaradwr gwadd yn ymuno â'r sesiwn, er mwyn sôn am eu profiadau gyda'r Gymraeg. Mae'r sesiynau rhithiol wedi profi'n boblogaidd tu hwnt.

Partneriaeth gyda MIND

Mae trafodaethau wedi parhau ynglŷn â'r bwriad i ryddhau cân ddwyieithog, er mwyn codi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl a chodi arian i MIND. Mae'r gân bellach wedi ei ysgrifennu a bydd yn cael ei recordio'n fuan a thrafodaethau'n digwydd o ran lansio'r gân.

Partneriaeth gydag Academi Leeway/Theatr Genedlaethol Cymru

Cynhaliwyd sesiynau Blwyddyn 2 Academi Leeway gyda chwe aelod yn mynychu'r prosiect.

Paratowyd cyfres o dair sioe gerdd gwta a'u cyflwyno yn yr Eisteddfod Amgen. Teitl y cyfanwaith oedd "Rhyfeloedd y 'Rona". Roedd y sioeau yn gyflwyniadau air am air yn trafod safbwyntiau, yr hyn a gytunwyd ac na chytunwyd, y rhwystredigaethau a'r sylwadau a gasglwyd gan y cwmni wrth iddyn nhw ymchwilio i adran sylwadau newyddion Wales Online. Roedd y newyddion yn ystyried tair araith allweddol gafodd eu cyflwyno gan Boris Johnson, Mark Drakeford a Nicola Sturgeon yn ystod pandemig 2020 – 2021. Roedd Theatr Genedlaethol Cymru hefyd yn cyfrannu at y prosiect.

Partneriaeth gydag Y Consortiwm Cymraeg

Shirley Valentine oedd perfformiad byw gyntaf Y Consortiwm Cymraeg gafodd ei chreu a'i pherfformio trwy gydol fis Mawrth ac Ebrill. Mynychodd dros 2,000 o bobl y perfformiadau mewn deg o theatrau ym mhob cwr o Gymru gyda'r prosiect yn denu llawer o sylw gan y cyfryngau a chanmoliaeth. Bu i'r Fenter weithio gyda Mentrau Iaith Bro Ogwr, a Chastell-nedd Port Talbot i hyrwyddo'r sioe er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn elwa o'r prosiect.

Partnership with Mudiad Meithrin

The Ti a Fi group (6-10 children) was held by Mudiad Meithrin and Grŵp Tylinio Babi (5-6 children) by Cymraeg i Blant have met weekly since June 2021 with the parents/guardians socialising at Caffi Soar before each session.

Partnership with Merthyr Well-being

We have continued to lead on a joint project with Merthyr Well-being, which asks people to share photos of the local area with us, focusing on a different theme each week.

Partnership with Coleg Merthyr

A fun quiz about Wales and the Welsh language was held with the students in order to celebrate that they had completed their oral assessments. As well as the quiz, the session was also a great opportunity for the students to talk about their projects with someone different, and to answer and ask questions.

Partnership with Dysgu Cymraeg Morgannwg

Monthly evenings for learners are held jointly with Dysgu Cymraeg Morgannwg. Following a request from Dysgu Cymraeg Glamorgan, some members of staff have agreed to be conversation partners as part of the 'Siarad' scheme.

We have collaborated with the informal learning officer, in order to develop a series of social evenings at the end of each month, with a guest speaker joining the session, in order to talk about their experiences with the Welsh language. The virtual sessions have proven extremely popular.

Partnership with MIND

Discussions have continued regarding the intention to release a bilingual song, in order to raise awareness of mental health problems and raise money for MIND. The song has now been written and will be recorded soon with discussions taking place regarding the song's production.

Partnership with Leeway Academy/National Theatre of Wales

Leeway Academy Year 2 sessions were held with six members attending the project.

A series of three musical shows were prepared and presented at the Alternative Eisteddfod. The title of the series was "The Wars of the 'Rona". The shows were verbatim presentations discussing views, what was agreed and what was not agreed, the frustrations and comments gathered by the company as they investigated the comments section in the Wales Online news website. The news considered three key speeches delivered by Boris Johnson, Mark Drakeford and Nicola Sturgeon during the 2020 – 2021 pandemic. The National Theatre of Wales also contributed to the project.

Partnership with Y Consortiwm Cymraeg

Shirley Valentine was the first live performance of Y Consortium Cymraeg which was created and performed through March and April. Over 2,000 people attended the performances in ten theatres all over Wales with the project attracting a lot of attention and praise from the media. The Menter worked with Mentrau Iaith Bro Ogwr, and Neath Port Talbot to promote the show in order to ensure that learners benefitted from the project.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Partneriaeth gyda Chanolfan y Mileniwm/Prifysgol Agored

Cychwynnodd prosiect 'Community Renewal Fund' (Levelling Up) yn ystod mis Mawrth mewn partneriaethau newydd i'r Fenter gan gynnwys Canolfan y Mileniwm a'r Brifysgol Agored. Y disgwyl yw y daw llu o brosiectau, prentisiaethau a chyfleoedd ymgysylltu trwy'r cynllun. Bydd y Fenter yn chwarae rôl ganolog mewn sicrhau bod cyfleoedd o ran y Gymraeg yn bodoli trwy'r prosiect i gyd.

Partneriaeth gyda Screen Alliance Wales

Mae trafodaethau cynnar wedi digwydd gyda Rheolwr Addysg Cyfrwng Cymraeg Screen Alliance Wales er mwyn datblygu prosiect o fewn y Sir i annog pobl ifanc i ymddiddori a hyfforddi mewn gweithio yn y sector ffilm a theledu, yn enwedig yng Nghymru a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd trafodaethau yn parhau er mwyn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu sianel deledu ddigidol gymunedol.

Partneriaeth gyda Theatr Bara Caws

Cynhaliwyd gweithdy a chyflwyniad gyda Chwmni Theatr Bara Caws i ddysgwyr Cymraeg, wedi ei seilio ar y sioe rithiol, 'Gair o Gariad'. Roedd y sesiwn yn gyfle i ddysgwyr ddysgu mwy am y cwmni a'r sioe, wrth ddefnyddio'r Gymraeg i drafod y celfyddydau. Roedd y sesiwn hefyd yn sicrhau bod mynediad gan y dysgwyr at y sioe, ac roedd sawl un ohonynt wedi mynychu'r sioe, fel canlyniad i'r gweithdy.

Prosiect Organ Theatr Soar

Mae'r gwaith ar adfer yr organ wedi ei gwblhau er gwaethaf yr holl ansicrwydd gododd oherwydd y cyfnod clo. Ariennir prosiect Organ Theatr Soar gan Gronfa Treftadaeth Y Loteri Genedlaethol a'r cam nesaf fydd apwyntio Swyddog Treftadaeth.

Datblygu'r Sin Gwerin

Yn dilyn llwyddiant yr Ŵyl Werin yn 2019 a 2020, mae trafodaethau wedi dechrau gyda phartneriaid ynglŷn â datblygu'r sin ym mhellach. Mae syniad wedi codi o gynnal gigs gwerin yn fisol, wedi eu ffrydio'n fyw o Theatr Soar. Bydd hyn yn golygu y bydd modd i bawb fwynhau cerddoriaeth byw, boed hynny yn y gynulleidfa, neu yn eu cartrefi. Byddai'r cynllun hefyd yn cynnwys hyfforddiant ffrydio byw i staff y theatr.

Cydnabyddiaeth

Yn ddiweddar mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful wedi derbyn Marc Elusen Ddibynadwy mudiadau'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r marc safon hwn yn cydnabod gwaith sydd yn cael ei fesur yn erbyn 11 o safonau ymarfer effeithiol gan gynnwys llywodraethant, rheolaeth ac arweiniad, rheoli staff a gwirfoddolwyr a rheoli arian. Llwyddwyd i gyrraedd bob un o'r safonau disgwyliedig.

Dyma oedd sylwadau Nick Snow, Rheolwr Rhaglen Elusen Ddibynadwy, Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol, "Rydym yn falch dros ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful eu bod wedi llwyddo i dderbyn y Marc Elusen Ddibynadwy. Rydym yn gwybod bod mudiadau sy'n defnyddio'r Safonau Elusen Ddibynadwy yn elwa o well llywodraethant, gwell systemau a gwell gwasanaeth ar gyfer eu defnyddwyr'.

Cydnabod pwysigrwydd sylfaenol cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd ein cymuned, ein hiaith a'n sefydliad wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn cofleidio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 trwy gyfrannu at bob un o'r 7 o bileri llesiant. Mae pob un o'n prosiectau yn cyd-fynd gyda gweithrediad y ddeddf.

Partnership with the Millennium Centre/Open University

The 'Community Renewal Fund' (Levelling Up) project started during March in new partnerships for the Enterprise including the Millennium Centre and the Open University. It is expected that many projects, apprenticeships, and engagement opportunities will emerge from the scheme. The Menter will play a central role in ensuring that Welsh language opportunities exist throughout the project.

Partnership with Screen Alliance Wales

Early discussions have taken place with Screen Alliance Wales' Welsh Medium Education Manager in order to develop a project within the County to encourage young people to become interested in and train in working within the film and television sector, especially in Wales and through the medium of Welsh. Discussions will continue in order to explore the possibility of establishing a community digital television channel.

Partnership with Theatr Bara Caws

A workshop and presentation was held with Cwmni Theatr Bara Caws for Welsh learners, based on the virtual show, 'Gair o Gariad'. The session was an opportunity for learners to learn more about the company and the show, while using Welsh to discuss the arts. The session also ensured that the learners had access to the show, and several of them attended the show, as a result of the workshop.

Theatr Soar Organ Project

The work on restoring the organ has been completed despite all the uncertainty that arose due to the lock period. The Theatre Soar Organ Project is funded by the National Lottery Heritage Fund and the next step will be to appoint a Heritage Officer.

Developing the Folk Scene

Following the success of Gŵyl Werin in 2019 and 2020, discussions have begun with partners about developing the scene further. An idea has arisen to hold monthly folk gigs, streamed live from Theatr Soar. This will mean that everyone will be able to enjoy live music, whether in the audience, or in their homes. The plan would also include live streaming training for theatre staff.

Recognition

Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful has recently received the Trusted Charity Mark of third sector organisations in Wales. This standard mark recognises work that is measured against 11 effective practice standards including governance, management and leadership, staff and volunteer management and financial management. All of the expected standards were achieved.

These were the comments of Nick Snow, Trusted Charity Program Manager, National Council of Voluntary Organisations, "We are proud for the trustees, staff and volunteers of Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful that they have succeeded in obtaining the Trusted Charity Mark. We know that organisations that use the Trustworthy Charity Standards benefit from better governance, better systems and better service for their users'.

Recognize the fundamental importance of sustainability

The sustainability of our community, our language and our organisation is at the heart of our work. We embrace the principles of the Well-being of Future Generations Act 2015 by contributing to all 7 pillars of well-being. All of our projects are in line with the implementation of the act.

Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r Prif Swyddog wedi chwarae rhan flaenllaw mewn rhwydweithiau sydd yn trafod y Celfyddydau yng Nghymru a'r ffordd gall y Celfyddydau gefnogi cymunedau wrth ddelio gyda Covid. Mae'r Rhwydweithiau yn cynnwys Beth Nesaf? Cymoedd, Beth Nesaf? Cymru a Chynghrair Diwylliant Cymru.

Mae cynnwys persbectif a llais Menter Iaith Merthyr mewn trafodaethau sector am ddyfodol y Celfyddydau yn cyd-fynd a'r hyn a fynegwyd yn ddiweddar gan Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, Nick Capaldi, yn ei ddarn "Ailosod y Llwyfan" am fwriad Cyngor Celfyddydau Cymru i: "greu partneriaeth gryfach gyda Uned Datblygu Iaith Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau hynny sy'n weithgar ym maes datblygu'r Gymraeg sy'n cynnwys yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Mentrau Iaith"

Cychwynnodd Y Fenter ar drafodaethau i ddatblygu rhwydwaith celfyddydol ym Merthyr gyda Chyngor Merthyr, Coleg Merthyr ac Ymddiriedolaeth Hamdden y Sir. Y gobaith yw ysgogi mentergarwch a chydweithrediad yn y sector celfyddydau ar draws y Sir.

Cychwynnwyd trafodaethau gyda Menter Iaith Conwy, Ynni Ogwen, Neuadd Ogwen a Menter Stiniog ynghylch datblygu rhwydwaith Celfyddydol Cymraeg a sefydlu Mentrau Cymdeithasol newydd.

Mentora i'r Prif Swyddog gan Elen ap Robert

Rôl Elen ap Robert oedd gweithio gyda'r Prif Swyddog i ystyried ffyrdd newydd o weithredu ein gweithgarwch. Mae gan Elen y profiad er mwyn creu Cynllun Strategol Celfyddydol i'r sefydliad a fyddai'n adeiladu cymhwysedd pellach i ddatblygu gwaith y Theatr.

Cafwyd 8 sesiwn mentora gan Elen ap Robert yn ystod y flwyddyn.

Manteisiodd y Prif Swyddog ar y cyfle yn ystod y cyfnodau clo i ganolbwyntio ar ddatblygiad Theatr Soar fel adnodd allweddol i adfywio'r Gymraeg yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bu'r sesiynau yn allweddol o ran magu hyder y Prif Swyddog i gymryd camau digynsail yn natblygiad Strategaeth Celfyddydol i Theatr Soar.

Diweddglo

Mae Canolfan Soar yn ystyried ei hun fel Menter sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd cymunedol Merthyr Tudful. Rydym yn ymgysylltu'n llawn â'r gymuned honno o ddydd i ddydd ond hefyd wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid a phrosiectau amrywiol ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ym mhob agwedd o fywyd yn y gymuned.

Mae Canolfan Soar yn cael ei gweld fel pwerdy adfywio yn yr ardal ac yn gyfleuster sy'n rhoi hwb i amrywiaeth o brosiectau treftadaeth a chelfyddydol. Rydym wedi llwyddo i sicrhau bod gweithgareddau wedi digwydd drwy gydol y pandemig Covid ac wedi myfyrio ar botensial gweithgareddau a phartneriaethau amrywiol ar ôl Covid.

Mae gan Ganolfan Soar rôl hollbwysig yn y sgwrs genedlaethol ar faterion yn ymwneud â chymuned, y celfyddydau, treftadaeth ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddyhead hirdymor Llywodraeth Cymru at gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Canolfan Soar yn cydnabod cefnogaeth y gymuned a'r rhai sy'n gwirfoddoli i sicrhau llwyddiant yng Nghanolfan Soar a'r un mor ddiolchgar i staff Canolfan Soar am eu hymrwymiad i'w gweledigaeth, nodau a'i hamcanion.

The Chief Officer has played a leading role in networks that discuss the Arts in Wales and the way the Arts can support communities when dealing with Covid. The Networks include What Next? Valleys, What Next? Wales and the Welsh Culture Alliance.

The inclusion of Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful's perspective and voice in sector discussions about the future of the Arts is in line with what was recently expressed by Welsh Arts Council's Chief Executive, Nick Capaldi, in his piece "Resetting the Stage" about Welsh Arts Council's intention to: "create a stronger partnership with the Welsh Government's Language Development Unit and those organisations that are active in the development of the Welsh language which include the Urdd, the National Eisteddfod and the Mentrau Iaith"

Y Menter started discussions to develop an arts network in Merthyr with Merthyr Council, Coleg Merthyr and the County Leisure Trust. The hope is to stimulate entrepreneurship and collaboration in the arts sector across the County.

